

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GWYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD ARBENNIG O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**EXTRAORDINARY MEETING OF
THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**DYDD GWENER, 14 RHAGFYR
2012**

**FRIDAY, 14 DECEMBER 2012
2012**

am 10.00 o'r gloch

at 10.00p.m

R H A G L E N

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhaglen.

2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL

3 PROSIECT CYSYLLTIADAU GOGLEDD CYMRU - YMATEB I YMGYNGHORIAD RHAGARWEINIOL AC ANFFURFIOL Y GRID CENEDLAETHOL AR YR OPSIWN Y MAE'N EI FFAFRIO (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy.

4 FFERM WYNT RHIANNON AR Y MÔR - YMATEB I GAM 1 YMGYNGHORIAD CELTIC ARRAY LIMITED (Tudalennau 19 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir
Dyddiad	14 Rhagfyr 2012
Pwnc	Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru - Ymateb i Ymgynghoriad Rhagarweiniol ac Anffurfiol y Grid Cenedlaethol ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei ffafrio
Aelod(au) Portffolio	Y Cyng Robert LI Hughes
Swyddog(ion) sy'n Arwain	Arthur Owen, Cyfarwyddwr dros Gynaliadwyedd
Swyddog Cyswllt	Gwyndaf Jones, Prif Swyddog Cynllunio Nia H Davies, Rheolwr Polisi (Cynllunio)

1. Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1** Mae'r adroddiad yn crynhoi'r dogfennau a gyhoeddwyd gan y Grid Cenedlaethol ar yr Opsiwnau Cychwynnol sy'n cael eu ffafrio yn ystod cyfnod ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol ar gyfer y prosiect isadeiledd cenedlaethol pwysig hwn.
- 1.2** Nodi'r ymateb sy'n cael ei argymhell i'r ymgynghori anstatudol ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei ffafrio.

2. Canlyniadau

- 2.1** Ymateb a gymeradwywyd i ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol y Grid Cenedlaethol, sy'n egluro:
- 1) Bod dull y Grid Cenedlaethol o ddethol ac ymgynghori ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei ffafrio yn ddiffygiol
 - 2) Mae'n bosibl y câi'r Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio gan y Grid Cenedlaethol effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd negyddol iawn ar Ynys Môn o gymharu â'r opsiwnau posibl eraill

3. Cefndir

- 3.1** Yn ychwanegol at y bwriad i adeiladu Gorsaf Niwclear newydd yn Wylfa a Fferm Wynt Rhiannon ym Môr Iwerddon, bydd Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol yn 'Brosiect Isadeiledd Mawr' y bydd raid i Gyfadran Isadeiledd Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio ei ystyried. Yr Arolygiaeth Gynllunio fydd yn delio gyda'r cais cynllunio ond bydd yr Awdurdodau Cynllunio a

effeithir yn gwneud cryn gyfraniad. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd hyd yma, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd fydd yr Awdurdodau a fydd yn cael eu heffeithio. Ar y sail hon, y Cynghorau hyn fydd y rhai yr ymgynghorir yn ffurfiol â nhw a bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn iddynt ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghori ffurfiol yn unol â Deddf Cynllunio 2008 e.e. dadansoddi Datganiad o Ymgynghoriad Cyhoeddus gan y datblygwyr, paratoi Adroddiadau Effaith Lleol a Datganiadau o Dir Cyffredin ac ymgysylltu yn y broses archwilio.

- 3.2** Cyn cadarnhau eu dewis terfynol o ran llwybr strategol, sy'n golygu y bydd angen cychwyn gwaith gwerthuso sylweddol ar astudiaethau o goridorau'r llwybr strategol, mae'r Grid Cenedlaethol wedi penderfynu y byddant yn cychwyn cyfnod o ymgynghori anffurfiol gyda'r Cynghorau a chydranddeiliaid eraill gan gynnwys cymunedau lleol. Ar 3 Hydref 2012, lansiodd y Grid Cenedlaethol gyfnod ymgynghori cyhoeddus anffurfiol o 11 wythnos ar yr Opsiwn Cychwynnol y mae'n ei ffafrio a daw'r cyfnod i ben ar 21 Rhagfyr 2012. Mae'r cam hwn yn gyfnod ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol gan y Grid Cenedlaethol ar Brosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru. Yn y tabl isod, ceir manylion am raglen prosiect arwyddol y Grid Cenedlaethol gan gynnwys rhai gweithgareddau allweddol.

1	Ymgynghori Cyhoeddus ar Opsiynau Strategol a'r Coridorau ar y Llwybr	Hydref 2012
2	Adroddiad Atborth ar Gam 1 yr Ymgynghoriad	Canol 2013
3	Datganiad o'r Cysylltiad sy'n cael ei ffafrio	Canol 2013
4	Atborth ar y Cysylltiad sy'n cael ei ffafrio	Diwedd 2012
5	Datganiad Manwl o'r Effaith ar yr Amgylchedd	Dechrau 2014
6	Ymgynghoriad ar Aliniad y Llwybr Drafft	2014
7	Cyflwyno Cais(Ceisiadau) Cynllunio	2015
8	Cyflwyno Cais am Orchymyn Caniatâd i Ddatblygu	2015

Mae'r dyddiadau uchod yn cynnig canllaw ynghylch sut y gall yr amserlen redeg ar gyfer Cais am Orchymyn Caniatâd i Ddatblygu. Nid oes bwriad iddynt gynnwys pob rhan o'r broses Gorchymyn Caniatâd i Ddatblygu a gall yr holl ddyddiadau newid oherwydd ffactorau amrywiol gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymatebion i'r ymgynghori ac arweiniad gan yr Arolygiaeth Gynllunio a sefydliadau eraill.

- 3.3** Gallai'r Cyngor ddewis peidio ymateb i ymgynghoriad anffurfiol y Grid Cenedlaethol ar yr Opsiwn Cychwynnol y mae'n ei Ffafrio, fodd bynnag, mae'n hynod bwysig ei fod yn ymgysylltu er mwyn cael mewnbwn i'r broses gwneud penderfyniadau. Pan fydd y Grid Cenedlaethol yn cytuno ar ei opsiwn manwl o ran llwybr ac yn cyflwyno ei Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio, byddai'r Cynghorau'n parhau i fod yn ymgynghoreion a byddai Cyfadran Isadeiledd Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn iddynt ymgynghori'n ffurfiol i'r ymgynghori yn unol â Deddf Cynllunio 2008 (fel y caiff ei

disgrifio uchod). Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn annog Awdurdodau Lleol i drafod a gweithio drwy'r materion a godwyd gan Brosiectau Isadeiledd o Bwys Cenedlaethol, megis Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru a hynny ymhell cyn cyflwyno'r cais ac ymgysylltu gydag ymgeiswyr wrth baratoi Datganiadau o Dir Cyffredin. Mae'r ymgynghori anffurfiol cychwynol hwn yn gyfle i rannu materion a theimladau gyda'r Grid Cenedlaethol yn ystod dyddiau cynnar y prosiect.

- 3.4** Bydd Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol yn un o'r buddsoddiadau mwyaf mewn isadeiledd yng Ngogledd Cymru. Rhaid i'r Grid Cenedlaethol ddod o hyd i ffordd o drosglwyddo o'r prif Grid Cenedlaethol y pŵer ychwanegol a gynhyrchir gan yr orsaf niwclear newydd yn Wylfa ynghyd â'r pŵer a gynhyrchir gan Fferm Wynt Rhiannon ym Môr Iwerddon. Yn ogystal, mae'r Grid Cenedlaethol wrthi'n trafod modd o wneud lle ar gyfer pŵer ychwanegol a gynhyrchir gan fferm wynt ar y tir yn Iwerddon (Greenwire), a fyddai angen ei chysylltu i Bentir. Mae'n bosib felly y bydd sgôp y Prosiect yn ehangach na'r hyn sy'n destun ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol ar hyn o bryd. Rhoddir sylw i'r sgôp ehangach hwn o ran prosiectau ychwanegol a phŵer ychwanegol yn rhan 6 yr adroddiad hwn.
- 3.5** Fel y dywedwyd yn 3.1 uchod, bydd y Prosiect yn arwain at gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu oherwydd ei fod yn gynllun isadeiledd pwysig. Rhagwelir mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud penderfyniad ar y cais oddeutu 2015/16 wedi i Gyfadran Isadeiledd Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio ei ystyried. Yn ei ffurf gyfredol, byddai cyflawni'r cynllun yn golygu y byddai'n rhaid hefyd cyflwyno ceisiadau cynllunio i'r ddau awdurdod cynllunio lleol ar gyfer datblygiadau cysylltiedig, e.e. is-orsafod newydd a hynny'n unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref.

4. Opsiynau Strategol a ystyriwyd gan y Grid Cenedlaethol

- 4.1** Rhaid i'r Grid Cenedlaethol ystyried amrediad eang o feini prawf wrth asesu opsiynau strategol. Y 4 ffactor mwyaf arwyddocaol yw effaith amgylcheddol, effeithiau cymdeithasol-economaidd, gallu technegol a chostau. Lle mae hynny'n bosibl, bydd yn defnyddio'r strwythurau cyfredol, llwybrau byrrach a'r atebion sy'n costio leiaf.
- 4.2** Gofynnwyd i'r Cyngor a chydranddeiliaid eraill ystyried cyfres o ddogfennau a baratowyd gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer yr ymgynghori rhagarweiniol ac anffurfiol. Cyn enwi'r Opsiwn Cychwynol y mae'n ei Ffaffrio (a ddisgrifir yn rhan 5 isod), rhoes y Grid Cenedlaethol sylw i nifer o ffyrdd posibl o gysylltu'r dulliau cynhyrchu trydan newydd arfaethedig a gynigir ar gyfer Gogledd Cymru gyda'r rhwydwaith trydan, sef opsiynau strategol. Roedd y rhain yn opsiynau tanfor, dros y tir neu gyfuniadau o'r ddau.
- 4.3** Cafodd nifer o opsiynau strategol eu 'parcio' gan y Grid Cenedlaethol yn dilyn gwerthusiad cychwynol ac ystyriwyd nad oeddynt yn gwarantu gwerthusiad


manwl. Mae'r opsiynau hyn yn syrthio i un o ddau brif categori: opsiynau dros y tir, ac opsiynau tanfor HVDC.

- 4.4** Fodd bynnag, nodwyd pump o opsiynau strategol ac aethpwyd â'r rheiny ymlaen ar gyfer gwerthusiad opsiynau strategol. Yn Nhabl 1 isod, ceir rhestr o'r opsiynau strategol hyn. Yn dilyn y tabl, ceir map sy'n dangos yr opsiynau.

Opsiw'n	
1	Mae yna dri chylched tanfor HVDC rhwng is-orsafodded Wylfa a Glannau Dyfrdwy. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gosod oddeutu 106km o geblau cylched HVDC tanfor a dros y tir rhwng isorsafodded 400kV Wylfa a Glannau Dyfrdwy.
2	Dau gylched tanfor HVDC rhwng Wylfa a Glannau Dyfrdwy ac un cylched tanfor HVDC rhwng Wylfa a Phenfro. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gosod oddeutu 106km o geblau cylched HVDC tanfor rhwng Wylfa a Glannau Dyfrdwy a gosod oddeutu 231km o geblau tanfor rhwng Wylfa a Phenfro.
3	Cylchedau newydd ar y tir yn cysylltu Wylfa a Phentir (AC neu HVDC), un cylched AC newydd rhwng Pentir a Thrawsfynydd i gael ei osod ar y peilonau cyfredol, cysylltiad newydd rhwng Wern a'r Garth, is-orsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd, ail-ddargludo'r cylchedau presennol yng Ngogledd Cymru, gosod cyfres o offer i wneud i fyny am y newidiadau a gwaith addasu yn yr is-orsafodded cyfredol.
4	Cylchedau newydd yn y môr i'r gorllewin o Ynys Môn yn cysylltu Wylfa a Phentir (AC neu HVDC), un cylched AC newydd rhwng Pentir a Thrawsfynydd i'w osod ar y peilonau cyfredol, cysylltiad newydd rhwng Wern a'r Garth, is-orsaf newydd yng Ngogledd Gwynedd, ail-ddargludo'r cylchedau cyfredol yng Ngogledd Cymru, gosod cyfres o offer i wneud i fyny am y newidiadau a gwaith addasu yn yr is-orsafodded cyfredol.
5	Cylchedau newydd yn y môr i'r gorllewin o Ynys Môn yn cysylltu Wylfa a Phentir (AC neu HVDC), un cylched AC newydd rhwng Pentir a Thrawsfynydd i'w osod ar y peilonau cyfredol, cysylltiad newydd rhwng Wern a'r Garth, is-orsaf newydd yng Ngogledd Gwynedd, ail-ddargludo'r cylchedau cyfredol yng Ngogledd Cymru, gosod cyfres o offer i wneud i fyny am y newidiadau a gwaith addasu yn yr isorsafodded cyfredol.

Tabl 1

Mae gan Opsiynau Strategol 3, 4 a 5 sawl agwedd yn gyffredin. Mae'r holl waith cyffredin ar y tir mawr ac nid ym Môn.




Map 1

- 4.5 Mae'r Grid Cenedlaethol wedi dadansoddi pob opsiwn strategol o ran y gost ac amrediad eang o effeithiau. Mae'r Grid Cenedlaethol yn awr yn rhoi arweiniad ar yr opsiwn sydd, ym marn y cwmni, yn ddichonadwy. Mae'r 'Adroddiad Opsiynau Strategol' yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol opsiynau strategol a ystyriwyd ac a ddiystyriwyd gan y cwmni a gellir eu gweld a'u lawrlwytho o: www.nationalgrid.com/northwalesconnection
- 4.6 Er bod y canllawiau hyn yn ddefnyddiol, nid yw'n golygu fod rhaid i'r Cyngor ddiystyru cefnogi opsiynau dim ond oherwydd bod y Grid Cenedlaethol o'r farn eu bod yn annichonadwy.
5. **Yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffaffrio gan y Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd**
- 5.1 Mae'r Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffaffrio gan y Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd yn un am gysylltiad dros y tir ac uwchddaearyl yn bennaf ac mae'n cynnwys tri pheccyn o waith. Maent yn cynnwys:

- Cysylltiad uwchddaearyl ychwanegol rhwng Wylfa a Phentir
- Isorsaf newydd yng Ngorllewin Gwynedd i gynnal cyflenwad dibynadwy i'r ardal
- Cysylltiad tanddaearol ychwanegol yn Aber Glaslyn i ymdopi gyda'r capasiti ynni cynyddol

5.2 Mae nifer o goridau'n cael eu hawgrymu gan y Grid Cenedlaethol ynghyd â safleoedd posibl ar gyfer is-orsaf newydd ger Bryncir, Gwynedd.

5.3 Mae'r isod yn dangos pedwar coridorau llwybr posib ar draws Ynys Môn a phump opsiwn posib i groesi'r Fenai i Pentir sy'n ffurfio rhan o'r Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio. Gellir gweld llun mwy ar lein trwy glicio ar y linc canlynol <http://www.northwalesconnection.com/wylfa-to-pentir.aspx>



5.4 Mae'r Grid Cenedlaethol yn cydnabod hefyd y byddai angen gwneud gwaith ychwanegol i gryfhau'r rhwydwaith trydan. Byddai'n cynnwys gwaith ar y gwifrau uwchddaearyl cyfredol yng Ngogledd Cymru, gosod offer i gryfhau'r cyflenwad a gwaith ar yr isorsafoedd cyfredol yn Wylfa, Pentir a Thrawsfynydd.

6. Yr ymateb a awgrymir i'r ymgynghori anffurfiol/anstatudol

6.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei Ffafrio gan y Grid Cenedlaethol. Mae'r Cyngor yn

cefnogi adeiladu gorsaf niwclear newydd a nodi'r tir yn ymyl Wylfa ar gyfer yr orsaf newydd, ar yr amod y ceir sicrwydd o ran yr effaith mewn perthynas â nifer o faterion. Mae Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru yn sylfaenol i orsaf niwclear newydd yn Wylfa ynghyd â nifer o brosiectau isadeiledd ynni pwysig eraill. Gallai gefnogi dyheadau Rhaglen Ynys Ynni Môn. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor bryderon difrifol ynghylch nifer o faterion sy'n gysylltiedig â'r Prosiect.

6.2 Nodir isod yr ymateb a awgrymir i'r ymgynghori anffurfiol rhagarweiniol hwn. Cydnabyddir bod angen cymryd nifer o wahanol ffactorau i ystyriaeth wrth asesu'r opsiynau ar gyfer llwybrau posibl ond, ar y lefel strategol hon, mae sylwadau'r Cyngor yn canolbwyntio ar y materion allweddol isod:

- Proses a methodoleg
- Sicrhau bod y rhwydwaith yn addas ar gyfer y dyfodol
- Materion cymdeithasol ac economaidd
- Materion yn ymwneud â'r Dirwedd a materion gweledol
- Materion treftadaeth ddiwylliannol
- Materion ecolegol a bioamrywiaeth

Efallai y bydd materion eraill y bydd y Cyngor yn dymuno dwyn sylw atynt.

6.3 Rhaid nodi fodd bynnag, fod y sylwadau'n seiliedig ar y wybodaeth hynod strategol ac efallai y bydd yn newid pan ddaw gwybodaeth bellach, fanylach i law neu os bydd opsiynau amgen yn cael eu cynnig. Oherwydd y pryderon sydd gan y Cyngor am y dull a fabwysiadwyd gan y Grid Cenedlaethol, ystyrir bod y sylwadau manwl am goridau posibl yn y ddogfen ymgynghori yn amhriodol ar hyn o bryd.

6.4 Proses a methodoleg

Mae'r isod yn rhestr o bryderon am y broses a'r fethodoleg a weithredwyd gan y Grid Cenedlaethol:

- Mae'r Grid Cenedlaethol yn ymgynghori ar yr opsiwn cychwynnol y mae'n ei ffafrio heb gyhoeddi Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol yn unol ag Adran 47 Deddf Cynllunio 2008;
- Mae cymharu'r dull hwn o weithredu gan y Grid Cenedlaethol gyda'i gynigion yng Ngwlad yr Haf yn awgrymu y bydd y cwmni'n defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad anffurfiol hwn i lywio datblygiad yr opsiwn cychwynnol y mae'n ei ffafrio ac yna'n ymgynghori arno ar unwaith cyn cyflwyno cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Nid yw hon yn ffordd foddhaol o fwrw ymlaen oherwydd nad yw'n rhoi cyfle gwirioneddol i'r Cyngor a chydranddeiliaid eraill ddylanwadu ar y datblygiad;
- Mae'r Grid Cenedlaethol yn ymgynghori, er yn 'anffurfiol', ar yr opsiwn cychwynnol sy'n cael ei ffafrio heb yn gyntaf ymgynghori ar opsiynau strategol eraill fel y dangosir nhw yn ei Adroddiad Opsiynau Strategol;

- Trwy ddwyn sylw mor gynnar at yr opsiwn y mae'n ei ffafrio, er mai opsiwn cychwynnol ydyw, nid yw'r Grid Cenedlaethol mewn gwirionedd yn cyflwyno unrhyw ddewisiadau eraill i'r Cyngor a chydranddeiliaid eraill;
- Sylweddolir bod y Grid Cenedlaethol yn ceisio nodi'r opsiwn sydd fwyaf tebygol o sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng ei amryfal ddyletswyddau statudol dan Ddeddf Trydan 1989. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ystyried bod y Grid Cenedlaethol yn yr achos hwn wedi rhoi mwy o bwys ar ddod o hyd i opsiwn llai drud yn hytrach na dod o hyd i opsiwn sy'n osgoi cyfyngiadau amgylcheddol neu economaidd-gymdeithasol;
- Oherwydd yr ymddengys eu bod yn cefnogi opsiwn sy'n cynnwys llinellau uwchben (ac eithrio lle maent yn mynd o dan y ddaear dan Glaslyn) nid yw'n ymddangos bod y Grid Cenedlaethol wedi edrych ar opsiynau technegol eraill;
- Sut bydd y Grid Cenedlaethol yn gallu cyfiawnhau'r opsiwn y mae'n ei ffafrio yn ei Adroddiad Amgylcheddol, fel sy'n ofynnol gan yr Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, heb ddangos eu bod wedi ystyried ac ymgynghori ar opsiynau eraill?
- Nid yw'r Adroddiad Opsiynau Strategol yn ystyried a fyddai opsiwn ar y tir/tanfor hybrid yn bosibilrwydd. Nid yw'r dull a ddilynwyd gan y Grid Cenedlaethol yn hwyluso cyflwyno opsiynau strategol posib eraill gan drydydd partiön;
- Nid yw'r Grid Cenedlaethol yn cydymffurfio gyda Rheolau Holford, sy'n nodi'r dull y dylid ei ddilyn o ran llwybr llinellau foltedd uchel uwchben y ddaear. Atgynhychir Rheol 1 Rheolau Holford isod:

Rule 1:

Avoid altogether, if possible, the major areas of highest amenity value, by so planning the general route of the first line in the first place, even if the total mileage is somewhat increased in consequence

Note on Rule 1

Investigate the possibility of alternative routes, avoiding if possible the areas of the highest amenity value. The consideration of alternative routes must be an integral feature of environmental statements.

Areas of highest amenity value are:

Areas of Outstanding Natural Beauty

National Parks

Heritage Coasts

World Heritage Sites

- Ystyriir bod angen dealltwriaeth llawer gwell o gapasiti'r dirwedd yn Ynys Môn

ac ar draws Afon Menai, sy'n lleoliad pwysig ar gyfer rhan o AHNE Ynys Môn, a'r potensial ar gyfer effaith gronol gydag isadeiledd fertigol arall (arfaethedig a chyfredol) o fewn yr opsiwn cychwynnol sy'n cael ei ffafrio. Mae angen deall goblygiadau hyn yn well a'u cymharu gydag opsiynau strategol eraill cyn y gellir nodi opsiwn penodol fel un sy'n cael ei ffafrio'n bendant.

- Mae'r Grid Cenedlaethol wedi diystyru opsiynau tanfor, gan gyfeirio at ystyriaethau amgylcheddol fel un o'r rhesymau dros wneud hynny. Nid oes gan y Cyngor arbenigedd o ran materion ecoleg môr ac ystyrir bod raid rhoi sylw i sylwadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar y mater hwn cyn y gellir diystyru unrhyw opsiwn o'r fath. Deallir bod awgrym wedi ei wneud y byddai diystyru'r holl opsiynau tanfor mor fuan yn y broses gynamserol. Cydnabyddir y byddai angen adeiladu gorsafoedd trosi mawr ar gyfer yr opsiwn ar y tir ym mhob pen. Fodd bynnag, mae opsiwn tanfor yn osgoi bron i bob un o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â: dewisiadau eraill ar draws Ynys Môn un ai uwchben neu o dan y ddaear; croesi Afon Menai; adeiladu is-orsaf ychwanegol ym Mryncir; a chroesi Aber Afon Glaslyn o dan neu uwchben y ddaear. Deallir hefyd bod CCGC wedi pwysleisio ei fod yn debygol iawn y gellid osgoi effeithiau sylweddol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Lerpwl.
- Mae'r Grid Cenedlaethol yn cyfeirio at heriau technoleg a chostau ychwanegol (o gymharu â'r opsiwn ar y tir) fel rhesymau dros beidio â mynd ar drywydd opsiynau tanfor. Nid yw'r Cyngor yn glir ynghylch sut y mae hyn yn cysylltu gyda'r negeseuon a gafwyd yn weddol ddiweddar yn sôn am gynlluniau i adeiladu cyswllt 2GW HVDC newydd rhwng Wylfa a Phenfro. Y prif yrwyr ar gyfer ystyried cyswllt 2GW HVDC rhwng Wylfa-Penfro oedd datblygu ynni gwynt ym Môr Iwerddon ym Mharth 3 (fferm wynt Rhiannon), comisiynu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa a'r angen am allu uwch ar draws y rhwydwaith;
- Nid yw'n glir a yw'r costau y cyfeirir atynt yn seiliedig ar safonau cenedlaethol ynteu a ydynt yn adlewyrchu amgylchiadau/heriau lleol;
- Nid oes digon o dystiolaeth dechnegol i'r Cyngor gefnogi diystyru opsiwn strategol tanfor neu opsiwn tanfor/ar dir ar hyn o bryd.

6.5 Sicrhau bod y rhwydwaith yn cwrdd â gofynion y dyfodol

Gwerthfawrogir bod yr opsiwn cychwynnol sy'n cael ei ffafrio yn cael ei gyflwyno fel opsiwn i ddelio gyda'r capasiti y gwyddys y bydd ei angen mewn perthynas â'r orsaf niwclear arfaethedig newydd a fferm wynt Rhiannon ar y môr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn credu y dylid rhoi mwy o sylw, cyn symud ymlaen, i ystyried yr angen posib i ddarparu capasiti trawsyrru ychwanegol a fydd yn cynorthwyo i hwyluso cysylltu cynhyrchwyr ychwanegol yn yr ardal e.e. Greenwire. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau na fyddir yn colli cyfle i hwyluso'r datblygiadau hyn yn ogystal â'r datblygiad y gwyddys amdano.

Mae'r gwelliannau isadeiledd wedi eu cysylltu ag ardal Gogledd Cymru ac nid ydynt yn cynnwys materion capasiti mewn perthynas â gweddill y rhwydwaith. Ystyrir y dylai'r Grid Cenedlaethol fanteisio ar y cyfle i gymryd agwedd sy'n fwy

cyfannol, gan edrych ar yr angen cenedlaethol ehangach e.e. pwysau yng nghanolbarth Cymru ac ati.

6.6 Materion economaidd-gymdeithasol

Gallai effaith weledol yr Opsiwn Cychwynnol sy'n cael ei ffafrio fod yn andwyol o ran pa mor ddeniadol yw asedau twristiaeth yr Ynys. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol oherwydd bod twristiaeth a'r diwydiannau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn sail ar gyfer economi'r ardal hon.

Mae twristiaeth yn Ynys Môn yn werth o gwmpas £240miliwn ar hyn o bryd i'r economi leol bob blwyddyn ac yn diogelu o gwmpas 4,000 o swyddi ar Ynys a chanddi boblogaeth o lai na 70,000. Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad annatod rhwng twristiaeth ac ansawdd y dirwedd. Mae'r Cyngor yn bryderus y gallai'r llwybrau dros y tir gael effaith andwyol sylweddol (un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad gyda strwythurau fertigol eraill/systemau llinellau pŵer eraill) ar Ardal o Harddwch Naturiol Ynys Môn a'r dirwedd yng nghefn gwlad ehangach yr Ynys - gweler rhan 6.7 sy'n delio gyda'r dirwedd a materion gweledol.

O bersbectif economaidd-gymdeithasol, nid oes gan yr opsiynau strategol tanfor neu danfor/dros y tir unrhyw effaith amlwg. Dylid rhoi pwyslais cadarnhaol ar y ffaith nad yw'r opsiynau hyn yn cael effaith andwyol a chydabod nad ydynt yn achosi unrhyw risg i'r diwydiant twristiaeth.

Mae'n amlwg hefyd mai'r opsiynau hyn fyddai'n cael yr effaith leiaf ar gymunedau lleol yn Ynys Môn, oherwydd eu bod o dan y môr cyn mynd ymlaen i'r tir mawr. Byddai'r opsiwn cychwynnol sy'n cael ei ffafrio yn dod yn agos iawn i nifer o aneddiadau, yn dibynnu ar goridorau'r llwybr, gan olygu, o bosib, effaith andwyol ar gyfleusterau'r clystyrau poblogaeth hyn. Mae'r Cyngor eisoes yn ymwybodol o bryderon trigolion am yr effaith bosib ar yr Ynys.

Yn gyffredinol, nid oes gan y ddogfen ymgynghori ddisgrifiad digonol o gyd-destun economaidd-gymdeithasol Ynys Môn. Mae'r dull yn llawer rhy syml ac nid yw'r heriau sy'n wynebu Ynys Môn wedi eu cydnabod na'u sylweddoli'n llawn. Yn ogystal â'r sylwadau ynghylch effaith gadarnhaol opsiwn tanfor/dros y tir, os bwriedir bwrw ymlaen gydag opsiwn dros y tir yn unig, mae angen i'r Grid Cenedlaethol wneud rhagor o waith i gryfhau manteision economaidd posib y prosiect hwn i drigolion a busnesau yn Ynys Môn. Gobeithir y bydd yn darparu cyflogaeth tymor hir a chyfleon hyfforddi ar gyfer trigolion Môn.

6.7 Tirwedd a materion gweledol

Mae'r Cyngor yn ystyried, pe bai'r Grid Cenedlaethol yn bwrw ymlaen gydag agweddau ar ei opsiwn cychwynnol, y byddai hynny'n tynnu'n gwbl groes i ddibenion yr AHNE. Y prif amcan ar gyfer dynodi AHNE yw cadw a gwella

prydfferthwch naturiol y tir. Dylai penderfyniadau rheoli datblygu sy'n cael effaith ar AHNE fod o blaid cadw prydfferthwch naturiol, er y bydd hefyd yn briodol i gymryd i ystyriaeth lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i gymryd dibenion yr AHNE i ystyriaeth. Gallai dilyn yr opsiwn cychwynnol sy'n cael ei ffafrio olygu felly y byddai'r Grid Cenedlaethol yn tynnu'n gwbl groes i'r gofyniad statudol sydd arnynt.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn dweud na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn AHNE ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Gallai amgylchiadau o'r fath gynnwys tystiolaeth, ar ôl archwiliad trylwyr, fod angen cyhoeddus am y datblygiad ac y byddai ei wrthod yn cael effaith andwyol ar yr economi leol ac nid oes modd symud y datblygiad i rywle arall na chwrdd â'r angen mewn ffordd arall. Nid yw cyfrifoldebau statudol y Grid Cenedlaethol ei hun yn gorbwyso'r uchod.

Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod digon o sylw wedi ei roi i'r opsiynau a fyddai'n hwyluso'r gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trawsyrru trwy eu gwneud mewn man arall neu mewn ffordd arall.

Gall llinell uwchben ar draws Ynys Môn fod â goblygiadau mawr i dirwedd yr Ynys. Oherwydd natur tir isel ar yr ynys caiff pob un o'r llwybrau ardrawiad andwyol gweledol arwyddocaol ar draws ardal eang oherwydd nad oes yna fawr o gyfle i liniaru effeithiau trwy ddefnyddio ffurf y tir ac nid oes yna lawer o goed. I'r gwrthwyneb mae rhannau o'r AHNE yn cynnwys tir uchel, e.e. Mynydd Bodafon, sy'n rhoi cyfle i weld llawer dros dirwedd gweledig yr Ynys a'r mwyafrif o'r coridorau arfaethedig.

Gallai mesurau lliniaru gynnwys 'tanddaearu' mewn rhai ardaloedd hollbwysig, gan gynnwys wrth groesi Afon Menai. O'r herwydd, dylid cynnwys yn y costau amcangyfrif o gost twnnel dan Afon Menai ac, yn dibynnu ar y llwybr, cost mesurau lliniarol eraill. Byddai peidio â gwneud hynny yn golygu y byddai'n anodd gwneud cymariaethau teg/tebyg gyda thebyg rhwng gwahanol amcangyfrifon cost ar gyfer y gwahanol opsiynau strategol.

Wrth gyrraedd at yr Opsiwn Cychwynnol a ffafrir does dim ystyriaeth wedi cael ei roi i'r 18 Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ar yr Ynys fel y gwelir yn Y Strategaeth Tirwedd ar gyfer Ynys Mon 2011. mae'r rhan fwyaf o'r Ardaloedd yma du mewn i ardal yr astudiaeth a caiff y mwyafrif eu heffeithio mewn modd andwyol gan y coridorau arfaethedig.

LANDMAP – mae gan pob un o'r haenau agwedd h.y. Gweledol a Synhwyrol, Ecoleg a Bioamrywiaeth, Diwylliannol, Daereg a Hanesyddol, werthoedd sydd rhwng arbennig iawn a chanolig, h.y. yn bwysig yn genedlaethol neu'n bwysig yn lleol. Fe all y coridorau arfaethedig ddibrisio rhain ymhellach oherwydd maint yr effaith andwyol ar draws ardal eang. Nid yw'r asesiad wedi cyfeirio at bob un o'r 5

haen agwedd fel mae LANDMAP a CCGC yn ei argymhell. Mae casgliadau'r asesiad yn seiliedig ar yr haen agwedd gweledol a synhwyrol yn unig. Mae rhagdybiaethau wedi cael eu gwneud sy'n codi'r cwestiwn ynglŷn a'r defnydd o LANDMAP fel sail i'r rhan yma o'r astudiaeth, h.y. defnydd dewisol o'r data yn hytrach na beth awgrymwyd gan LANDMAP/ CCGC i ddewis y coridorau arfaethedig.

Ni fyddai'r opsiwn tanfor neu'r opsiwn tanfor/dros y tir yn cael unrhyw effaith ar y dirwedd yn Ynys Môn, neu ychydig iawn, ac ni fyddai'n cael effaith ar AHNE Ynys Môn - tirwedd sydd wedi ei dynodi'n genedlaethol. Ni fyddai'r opsiwn strategol arall hwn (sydd wedi ei ddiystyru) yn tynnu'n groes o gwbl i ddibenion yr AHNE.

6.8 Materion Treftadaeth ddiwylliannol

Mae ardal yr astdiaeth yn cynnwys nofer o asedau treftadaeth sy'n debygol o gael eu heffeithio mewn modd andwyol o bosib, sy'n cynnwys 2 Safle Treftadaeth Byd Eang, 2 Barc a Gerddi Hanesyddol Gradd 1; 5 Gradd 11* a 5 Gradd 11; 5 Tirweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, 18 Ardal Cadwraeth, 171 Henebion Cofrestredig, 1,834 Adeiladau Rhestredig a hyd at 3,500 o asedau treftadaeth cofrestredig yn y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol.

Wrth asesu goblygiadau posib yr opsiwn tanfor, sydd wedi ei ddiystyru, yn erbyn ystyriaethau treftadaeth ddiwylliannol, deuir i gasgliad tebyg, h.y. ni fyddai unrhyw effaith/ychydig iawn o effaith ar dreftadaeth ddiwylliannol Ynys Môn. Trwy osgoi mynd dros y tir, prin iawn fyddai'r effaith yn Ynys Môn ei hun.

6.9 Ecoleg a Bioamrywiaeth

Deallir y gellid rheoli effaith yr opsiwn tanfor ar Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Lerpwl. Gall pob un o'r coridorau posib i'r peilonau gael effaith ar gynefinoedd a bywyd gwylt Ynys Môn. Ni ellir asesu maint yr effaith heb fwy o fanylion – a fydd ar gael yn nes ymlaen, os caiff yr opsiwn tir yma ei ddewis yn y tymor hir. O berspectif ecoleg bywyd gwylt, fe ddylid pwysu'r opsiwn tanfor yn erbyn y rhai ar draws y tir fel rhan o gymhariaeth llawnach o'r rhain. Trwy osgoi'r tir, mae'r opsiwn tanfor yn rhoi cyfle i osgoi effaith ar ecoleg a bioamrywiaeth Ynys Môn, nid yn unig mewn safleoedd dynodedig ond hefyd efallai yn rhai o'r safleoedd bywyd gwylt gorau'r Ynys y tu allan i'r dynodiadau statudol.

6.10 Sylwadau manwl

Cyflwynir sylwadau manwl ynghylch gwahanol rannau'r ddogfen ymgynghorol yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

7. Gwaith a wneir gan swyddogion ar ran y Cyngor

7.1 O gofio maint a natur ddaearyddol Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru, mae

Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd wedi arwyddo Cytundeb Perfformio Cynllunio gyda'r Grid Cenedlaethol. Mae Cytundebau Perfformio Cenedlaethol (CPC) yn ffordd i awdurdodau cynllunio lleol sy'n cael eu heffeithio gan brosiectau isadeiledd sylweddol cenedlaethol gymryd rhan ac ymgysylltu'n gadarnhaol gyda datblygwyr a dod i gasgliad gwybodus ynghylch effeithiau cynigion yn lleol. Nid yw CPC yn llyffetheirio'r awdurdodau o ran eu barn ynghylch rhinweddau'r cynnig. Fodd bynnag, mae'n caniatáu bod ganddynt yr adnoddau priodol i sicrhau bod sylwadau a phryderon cymunedau lleol yn cael eu lleisio o fewn y broses gynllunio, sy'n hanfodol o gofio bod y penderfyniad a wneir ar y cynigion yn y pen draw yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol.

7.2 Yn ogystal, mae trefniadau'n cael eu gwneud i benodi ymgynghoriaeth i ddarparu cyngor i Gyngor Sir Ynys Môn am isadeiledd trawsyrru newydd a chysylltiadau grid. Rhagwelir y bydd y cwmni wedi ei benodi erbyn Chwefror 2013 ac y bydd ei gylch gorchwyl yn cynnwys rhoi cyngor ar:

- Agweddau ac opsiynau technegol mewn perthynas â'r isadeiledd trawsyrru
- Amrywiaeth o faterion cynllunio sy'n ymwneud â chais y Grid Cenedlaethol ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu a cheisiadau am unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig;
- Cysylltiadau isadeiledd Celtic Array ar y tir ac unrhyw geisiadau cynllunio cysylltiedig.
- Datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Isadeiledd Trawsyrru a Chysylltiadau.
- Y sylfaen dystiolaeth gadarn y byddai'r Cyngor ei hangen i gefnogi ei safiad, a allai ychwanegu gwerth at baratoi unrhyw bolisiau perthnasol a fydd yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n esblygu.

8. Casgliadau

8.1 Mae angen i'r Grid Cenedlaethol atgyfnerthu'r rhwydwaith trawsyrru trydan yng Ngogledd Cymru i ddarparu'r cysylltiadau angenrheidiol. Fel arall, ni fyddai Prosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol, ee. Gorsaf niwclear newydd yn Wylfa, yn mynd yn eu blaenau. O'r herwydd, mae'n hollbwysig bod Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i ymgysylltu gyda'r Grid Cenedlaethol ar y Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru ac yn ymateb i'r ymgynghoriad anstatudol cyfredol, gan sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol perthnasol wedi cael sylw priodol o'r cychwyn gyntaf gan y Grid Cenedlaethol.

8.2 Serch hynny, mae'r Cyngor yn siomedig ac yn bryderus bod y Grid Cenedlaethol eisoes wedi dewis yr opsiwn strategol y mae'n ei ffafrio heb yn gyntaf roi cyfle i'r Cyngor a chydranddeiliaid eraill:

- Ystyried a chyflwyno sylwadau ar ei amrediad o opsiynau strategol posib, neu
- Awgrymu opsiynau strategol eraill posib, a fyddai'n sicrhau'r cysylltiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith newydd ond hefyd yn gostwng yr effaith yn Ynys

Môn.

- 8.3 Mae'r Cyngor yn bryderus bod y Grid Cenedlaethol, wrth ddewis yr opsiwn cychwynnol y mae'n ei ffafrio, wedi rhoi mwy o bwys ar yr hyn y mae'n ei ystyried fel opsiwn llai drud o gymharu â'r effeithiau amgylcheddol ac economaidd-cymdeithasol yn Ynys Môn a'r tir mawr.

9. Argymhelliad

- 9.1 Bod y Cyngor yn ystyried, yn cyflwyno sylwadau ac yn cymeradwyo ymateb arfaethedig y swyddogion i'r ymgynghoriad sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad gan gyflwyno ei ymateb ffurfiol cyn 21 Rhagfyr 2012.

Goblygiadau ac Effeithiau	
1	Cyllid / Adran 151
2	Swyddog Cyfreithiol / Monitro
3	Adnoddau Dynol
4	Gwasanaethau Eiddo (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
5	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
6	Cydraddoldeb (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
7	Gwrthdodi a Chymdeithasol (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
8	Cyfathrebu (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
9	Ymgynghori (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
10	Economaidd
11	Amgylcheddol

Goblygiadau ac Effeithiau	
	(gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
12	Trosedd ac Anrhefn (gweler nodiadau – dogfen ar wahân)
13	Cytundeb Canlyniadau

Dyddiad: 4ydd Rhagfyr 2012

Atodiadau:
1 – Sylwadau manwl.

Papurau Cefndirol:
Adroddiad Opsiynau Strategol y Grid Cenedlaethol a dogfennau cysylltiol

Atodiad 1

Rhan	Sylw
11.10	Mae'r rhan hon yn manylu ar y nodweddion economaidd-gymdeithasol a defnydd tir o fewn ardal yr astudiaeth ond nid yw'n nodi effaith economaidd-gymdeithasol y gwahanol opsiynau. Mae'n anodd mesur yr effaith gyffredinol.
11.12	Nid yw'r rhan hon yn sôn am y prosiectau isadeiledd ynni a fwriadwyd ar gyfer Ynys Môn.
11.4	Gwallau teipio yn Nhabl 11: Mae Rhosneigr, Llannerch-y-medd a Caergeiliog wedi eu sillafu'n anghywir. Y rhain yw'r sillafiadau cywir.
11.21	Cyfeirir at arolwg twristiaeth a wnaed yn 1997/1998. Mae twristiaeth yn Ynys Môn wedi newid yn y 14 mlynedd diwethaf ac mae ymchwil diweddarach ar gael. Mae'r sector twristiaeth yn Ynys Môn yn werth £240miliwn i'r economi leol yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2012-2016. Dylai'r rhan hon hefyd roi mwy o sylw i'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sydd wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn erbyn hyn.
11.22	Mae Porthladd Caergybi yn Llwybr Traws-Ewropeaidd mewn gwirionedd, gan gysylltu mwy na dim ond Cymru ac Iwerddon. Mae llongau mordeithio yn galw yno hefyd ac mae nifer yr ymweliadau gan longau o'r fath yn codi bob blwyddyn. Mae angen rhagor o wybodaeth yn y paragraff hwn ynghylch nifer yr ymwelwyr sy'n cyrraedd Porthladd Caergybi bob diwrnod/blwyddyn.
11.24	Dylid neilltuo rhan o'r adroddiad yn benodol i ddiwydiant llongau mordeithio Ynys Môn sy'n cyfrannu dros £1miliwn i'r economi leol ac sy'n ddiwydiant sy'n tyfu'n barhaus. Yn 2012, daeth y llong wyliau fwyaf erioed i ymweld â Chymru i Gaergybi ac roedd 3,600 o deithwyr ar ei bwrdd.
11.40	Mae'r cae sioe yn Ynys Môn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer dwy sioe amaethyddol bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i gynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill gydol y flwyddyn.
11.42	Mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn yn rhan o Lwybr Arfordirol Cymru gyfan, sef y llwybr arfordirol di-dor mwyaf yn y Deyrnas Gyfunol.
11.74	Oes meini prawf ynghylch pa mor agos y gall llinellau uwchddaeareol fod i anheddau, cyfleusterau twristiaeth ac ati? Os oes, dylid eu cynnwys fel y gellir cyfeirio atynt.
11.75	Mae angen cytuno ar Ddatganiad o Dir Cyffredin fel bod modd diogelu'n llawn unrhyw ardaloedd lle gellid tanddaearu o bosib ac sy'n ardaloedd twristiaeth sensitif iawn. Mae angen eglurder ynghylch sut y mae'r Grid Cenedlaethol yn diffinio ardaloedd sensitif iawn/sensitif. Mae angen trafodaethau gyda'r Cyngor hefyd ynghylch mesurau lliniaru arfaethedig.
11.76	Fel bod modd i drigolion lleol fanteisio ar gyfleon am swyddi i'r dyfodol, mae angen i'r Grid Cenedlaethol wneud ymrwymiad i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau lleol yn awr. Mae'n rhaid hefyd sicrhau'r cyfleon mwyaf posib o ran y gadwyn gyflenwi ar gyfer y gymuned leol.
12.9	Mae angen rhoi rhagor o sylw i'r rhan hon ac ymhelaethu arni. Mae pedwar math gwahanol o greigiau sensitif yn Ynys Môn. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar effaith bosib unrhyw waith daear ar drigolion a busnesau.

This page is intentionally left blank

RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN
 [Ddim i'w gyhoeddi oherwydd
 Paragraff(au) Rhestr 12A Deddf
 Llywodraeth Leol 1972]

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir
Dyddiad	14 Rhagfyr 2012
Pwnc	Cam yr Ymgynghoriad mewn perthynas â Fferm Wynt Rhiannon ar y Môr
Deilydd(ion) Portffolio	Y Cyngorydd Robert LI Hughes
Swyddog(ion) Arweiniol	Arthur Owen, Cyfarwyddwr Datblygiad Cynaliadwy
Swyddog Cyswllt	E Gwyndaf Jones, Prif Swyddog Cynllunio
Natur a rheswm am adrodd	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ymateb y Cyngor i Cam 1 y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (GAR) a gyhoeddwyd gan Celtic Array Limited ar gyfer Fferm Gwynt ar y Môr Rhiannon. 2. Dylai'r Cyngor ystyried, cyflwyno sylwadau a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad hwn yn ogystal â'r ddogfen sydd wedi ei hatodi (Atodiad 1) fel ei ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, gan gyflwyno ei ymateb ffurfiol cyn 20 Rhagfyr, 2012 	

A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

O dan ddarpariaethau Adran 42 Deddf Cynllunio 2008, mae gan Celtic Array ddyletswydd i ymgynghori ar ei gynigion cyn y gallant wneud cais i'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol (CSG) am ganiatâd datblygu. Er bod y CSG wedi penderfynu nad yw Ynys Môn Cyngor Sir (CSYM) yn cael ei ystyried yn ymgynghorai statudol o dan y Ddeddf, mae Celtic Array Ltd o'r farn, oherwydd lleoliad y fferm wynt ar y môr arfaethedig a'r elfennau fydd ar y tir, bydd eu cynigion yn cael effaith ar yr ynys a'i thrigolion. Mae'r fethodoleg yn nodi sut y mae Celtic Array Ltd yn mynd i ymgynghori eisoes wedi cael ei gyflwyno yn ei Ddatganiad o Ymgynghoriad Cymunedol (DOYC) ac a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Medi, 2012.

Mae Celtic Array Ltd yn bwriadu mabwysiadu proses ymgynghori dau gam.

Dechreuodd y cam cyntaf ar Ddydd Llun, 29 Hydref, 2012 a bydd yn rhedeg tan ddydd Iau 20 Rhagfyr, 2012. Disgwylir y bydd yr ail gam yn digwydd yn ystod Chwarter 3 2013, cyn cyflwyno eu Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) yn Chwarter 4 2013. Er bod y prosiect wedi ei leoli ar y môr ym Môr Iwerddon, bydd Celtic Array Ltd hefyd yn cyflwyno ceisiadau cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer gwaith ar y tir sy'n gysylltiedig â chysylltiad y datblygiad i'r grid cenedlaethol.

Mae Celtic Array Ltd yn rhagweld y byddant yn cynnal ymgynghoriad penodol ar yr Adroddiad Sgopio ar y tir a'r cynigion, gan gynnwys is-orsaf ac elfennau tir y prosiect yng Ngwanwyn 2013.

Yn unol ag Adran 42 y Ddeddf, Cam 1 GAR yn hysbysu ymgynghoreion technegol am y fferm wynt arfaethedig ar y môr ac yn disgrifio effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â'r camau adeiladu, gweithredu a digomisiynir prosiect. Bydd yr holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hadolygu gan Celtic Array Ltd a'u dadansoddi i:

- Helpu i sicrhau bod agweddau negyddol a chadarnhaol posib y prosiect arfaethedig wedi cael eu hystyried;
- Cymryd cyfleoedd i wella dyluniad y prosiect, lle bo'n briodol, a
- Cynhyrchu adroddiad ymgynghori i gyd-fynd â chais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Hyd yma, mae swyddogion wedi ymateb i 2 ddogfen ymgynghori flaenorol sydd wedi helpu i lywio'r prosiect sef Cynllunio a Gwerthusiad Parthol a'r Farn Sgopio a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol (DA) ar gyfer Fferm Wynt Rhiannon.

B - Ystyriaethau

Fel y bydd Aelodau'n ymwybodol, mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i Gytundeb Fframwaith 4 blynedd gyda'r cwmni AMEC er mwyn darparu arbenigedd, sgiliau a gallu amlddisgyblaethol a phroffesiynol i'r Awdurdod fel y gall ei gynorthwyo, pan fo angen, i ddelio â'r datblygiadau isadeiledd mawr a fydd yn effeithio ar yr Ynys dros y blynyddoedd i ddod.

Yn dilyn cyfarfodydd a thrafodaethau rhwng y cwmni a Swyddogion, mae adroddiad (Atodiad 1) wedi ei gynhyrchu er mwyn darparu ymateb y Cyngor ar Gam 1 yr Ymgynghoriad ar Fferm Wynt Rhiannon. Dylid darllen a chydabod y ddogfen fel sylwadau'r Cyngor ar gynnwys dogfennau ymgynghori Celtic Array Ltd gan gynnwys:

- Dogfen Ymgynghori Cymunedol Cam 1, sef crynodeb annhechnegol o Gam 1 y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (GAR);
- Cam 1 y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (GAR), sef adroddiad technegol sy'n ofynnol o dan Adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ac s'n disgrifio'r effeithiau posibl y fferm wynt ar yr amgylchedd;
- Ffotogyfosodiadau o saith safle a ddewiswyd o leoliadau arfordirol yng nghyffiniau

Fferm Wynt Rhiannon.

Prif ddiben y GAR yw darparu digon o wybodaeth i lywio ymgynghori cyn cynhyrchu eu Datganiad Amgylcheddol (DA).

Gofynnir i'r aelodau adolygu a rhoi sylwadau ar yr adroddiad atodedig yn ogystal ag ystyried y sylwadau isod sydd wedi dod i law gan yr Uned Adain Datblygu Economaidd (UDE). Dylai Aelodau nodi bod rhai o'r sylwadau yn ailadrodd materion y cyfeirir atynt hefyd yn y ddogfen atodol ac sy'n cael sylw ynddi.

Gellir crynhoi'r sylwadau canlynol fel a ganlyn:

- Dylai unrhyw ffigyrau ac effeithiau economaidd-gymdeithasol ymwneud ag Ynys Môn ac nid Cymru gyfan
 - Yr effeithiau sylweddol posib ar dwristiaeth yn sgil y Prosiect
 - Dylid manteisio ar botensial arfordir Ynys Môn mewn modd sensitif
 - Dylid cyfeirio'n benodol at y berthynas gyd-ddibynnol rhwng Celtic Array a'r Grid Cenedlaethol
- Dylid fod wedi pwysleisio mwy ar effaith gronol y prosiect

Mae'r rhan 'Disgrifiad o'r Amgylchedd Cyfredol' yn y rhan Amgylchedd Dynol - Economaidd-Gymdeithasol yn y GAR yn llawer rhy eang. Mae'n anodd rhoi sylwadau ystyrlon o safbwynt cymdeithasol-economaidd oherwydd y diffyg manylion ar y pwnc. Awgrymir y dylai'r holl rannau o'r adroddiad, e.e. cyflogaeth, demograffeg y boblogaeth gael eu torri i lawr i is-rannau ar gyfer pob ardal, gan gynnwys Ynys Môn. Sylweddolir nad yw'n bosibl i Celtic Array fesur y budd economaidd hyd nes y bydd llawer mwy o sicrwydd ynghylch dyluniad y fferm wynt.

O gofio bod y fferm wynt arfaethedig 19 km yn unig o arfordir Ynys Môn, dylai'r ffigyrau a'r effeithiau economaidd-gymdeithasol fod ar lefel Ynys Môn ac nid Cymru gyfan. Dylid cydnabod sut y mae'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol yn Ynys Môn yn sylweddol wahanol i'r Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

O ran adeiladu, gweithredu a chynnal y fferm wynt, argymhellir defnyddio Porthladd Caergybi fel sylfaen. Dylid ymchwilio i hyn ymhellach fel rhan o effeithiau cymdeithasol-economaidd y prosiectau oherwydd y cyfleon swyddi cysylltiedig a chyfleon ar gyfer gwella sgiliau'r gweithlu lleol / cymunedol.

Mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig ar Ynys Môn, ac ar hyn o bryd mae'n werth £ 240 miliwn i'r economi leol ac yn sicrhau 4,000 o swyddi. Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan CSYM ar gyfer 2012-2016 yn dwyn sylw at faterion a phryderon ynghylch tyrbinau gwynt a pheilonau ymysg cydranddeiliaid twristiaeth. Argymhellir bod asesiad manwl o'r effaith ar dwristiaeth yn cael ei wneud.

Dylai unrhyw safleoedd lle mae'r ceblau'n dod i'r lan ac is-orsaf / gorsaf drosi gymryd natur sensitif ac unigryw yr arfordir i ystyriaeth. Mae dros 300,000 o gerddwyr yn defnyddio llwybr arfordirol Ynys Môn yn flynyddol, sy'n cynhyrchu £ 14 miliwn i'r economi leol. Dylid lliniaru effeithiau gweledol datblygiadau ar y tir ac ar y môr er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar yr arfordir a thwristiaeth.

